

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 2: Adran 16

Dyletswydd i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trawsnewid yn llwyr y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru i ddiwallu anghenion yr unigolyn a gwneud gwasanaethau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae'r Ddeddf yn rhoi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl dros y cymorth y mae ei angen arnynt i ddileu rhwystrau i'w llesiant. Mae'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynharach i atal anghenion rhag dod yn ddifrifol, ac mae'n hyrwyddo'r arfer o fuddsoddi mewn adnoddau yn y tymor byr i roi'r gwerth gorau i bwrs y wlad ar y cyfan.

Mae'r Ddeddf hefyd yn hyrwyddo integreiddio rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i'r graddau mwyaf posibl er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant gwell.

Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer statudol mewn perthynas â Rhan 2 yn darparu eglurder a chyfarwyddyd ynghylch y ddyletswydd dan adran 16. Mae'r ddogfen frifio dechnegol hon yn rhoi crynodeb byr o'r ddyletswydd hon, ond nid dogfen gyfreithiol mohoni.

Dolenni allweddol:

Rheoliadau Mentrau Cymdeithasol,
Cydweithredol a Thrydydd Sector (Cymru) 2015
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1500/pdfs/wsi_20151500_mi.pdf

Mae'r rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud a byddant yn dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau
Cyffredinol)

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part2cy.pdf>

Cyhoeddwyd y cod ymarfer hwn o dan Ran 2 o'r Ddeddf ar 18 Rhagfyr 2015. Mae'n dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

Crynodeb o'r ddyletswydd

Mae **Adran 16** yn cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo datblygiad mentrau cymdeithasol yn ei ardal i ddarparu gofal a chymorth, a chymorth i ofalwyr, a gwasanaethau ataliol. Mae'r modelau hyn yn cynnwys mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector.

Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys pobl yn y broses o ddylunio a gweithredu gwasanaethau.

Mae'r cod yn cyflwyno 5 maes allweddol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol fynd i'r afael â hwy:-

- Cydgynhyrchu
- Mesur llwyddiant
- Creu'r amgylchedd cywir
- Cynllunio, hyrwyddo a darparu
- Cydweithio

Beth mae hyn yn ei wneud?

Bydd hyn yn newid y ffordd y mae awdurdodau lleol yn cynllunio, yn hyrwyddo ac yn darparu gwasanaethau a'r ffordd y maent yn gweithio gyda phobl leol i ddylunio a gweithredu gwasanaethau. Dylai awdurdodau lleol, gyda'r byrddau iechyd sy'n bartneriaid iddynt, sefydlu fforymau rhanbarthol i gefnogi darparwyr cymdeithasol, sy'n seiliedig ar werthoedd, i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth am yr agenda gyffredin, ac i rannu a datblygu arfer da.

Cydweddiad â'r Ddeddf

Mae egwyddorion cynnwys pobl fel partneriaid cyfartal, a chydgyhyrchu, yn rhedeg drwy'r Ddeddf. Pan fo awdurdodau lleol yn cynnal eu hasesiadau o anghenion y boblogaeth ar y cyd, mae'n rhaid iddynt weithio gyda phobl wrth ystyried lefel yr angen, yr asedau sydd ar gael a bylchau yn eu hardal. Wrth ystyried sut y caiff anghenion eu diwallu, ac ystyried eu dyletswyddau dan adran 15 (i hyrwyddo llesiant pobl wrth ddarparu neu drefnu gwasanaethau ataliol), mae'n rhaid iddynt ystyried y

ddyletswydd dan adran 16 a'r cyfleoedd a gynigir trwy ddatblygu trefniadau arloesol, nid-er-elw-preifat.

Sut mae hyn yn gweithio yn ymarferol?

Mae'r "ddyletswydd i hyrwyddo" yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio dull rhagweithiol i hyrwyddo'r arfer o gynnwys pobl yn y broses o ddylunio a darparu gwasanaethau.

Mae'r ddyletswydd hon yn ysgogydd a chyfle pwysig i awdurdodau lleol fod yn arloesol o ran dylunio dulliau creadigol mewn perthynas ag ymyrryd yn gynnar ac atal.

Mae'n rhaid i ymarferwyr alluogi pobl i chwarae rhan yn y broses o ddylunio a gweithredu gwasanaethau mewn ffordd ystyrlon. Caiff egwyddorion cydgynhyrchu eu nodi'n fanwl yn y cod ymarfer.

Mae [Pecyn Cymorth Anabledd Cymru, Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol: Tuag at Gymru sy'n Galluogi](#) yn nodi'r rhwystrau i chwarae rhan a sut y gellir goresgyn y rhwystrau hyn.

Disgwylir dulliau mwyfwy lluosog dros amser wrth i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd dan adran 16.

Rhagor o wybodaeth

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

Rhagor o wybodaeth o wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/?lang=cy>

Hyb gwybodaeth a dysgu Cyngor Gofal Cymru:

<http://www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/?force=2>

Mae <http://www.walescooperative.org/> yn asiantaeth datblygu sefydliadau cydweithredol sy'n gweithio ledled Cymru i hybu cynhwysiant cymdeithasol, ariannol a digidol trwy ystod o brosiectau. Maent yn

darparu gwybodaeth a chymorth busnes ar gyfer mentrau cymdeithasol a sefydliadau cydweithredol.

Mae <http://www.socialenterprise.org.uk/social-enterprise-places> yn darparu amrywiaeth o wybodaeth ynghylch mentrau cymdeithasol.

Mae **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru** (WCVA) yn darparu cymorth ac arweinyddiaeth ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru <http://www.wcva.org.uk/>

Cwmnïau Cymdeithasol Cymru

<http://www.socialfirmswales.co.uk/index.php>

yw'r Asiantaeth Gymorth Genedlaethol ar gyfer Datblygu Cwmnïau Cymdeithasol.

Mae **Cyflawni'r Ddyletswydd**, adroddiad gan Barod a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i egluro sut y gellir creu cyfleoedd i bobl sefydlu a rhedeg eu gwasanaethau gofal a chymorth eu hunain. <http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/resources/?lang=cy>